Ffeithlen y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

Trethiant Pensiynau - Lwfans Blynyddol

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi'n gosod dau reoliad ar gyfanswm y cynilion pensiwn y gallwch eu casglu heb fod angen i chi dalu treth ychwanegol arnynt. Caiff y rheoliadau hyn eu galw'n lwfans blynyddol a lwfans oes. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw dreth incwm rydych yn ei dalu ar eich pensiwn unwaith rydych wedi dechrau ei dalu.

Mae'r ffeithlen hon yn trafod y Lwfans Blynyddol, sef swm y gall gwerth eich buddion pensiwn gynyddu yn ystod blwyddyn heb fod angen i chi dalu treth.

Beth yw'r lwfans blynyddol?

Y lwfans blynyddol (LB) yw'r cyfanswm y gall gwerth eich buddion pensiwn gynyddu yn ystod blwyddyn heb fod angen i chi dalu treth. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw dreth incwm rydych yn ei dalu ar eich pensiwn unwaith rydych wedi dechrau ei dalu.

Os yw gwerth eich cynilion pensiwn mewn blwyddyn (gan gynnwys cynilion pensiwn y tu hwnt i CPLI) yn fwy na'r lwfans blynyddol, codir treth ar yr arian dros ben fel ar incwm.

Gostyngwyd yr LB o £255,000 i £50,000 gan y Llywodraeth o 6 Ebrill 2011, ac fe'i gostyngwyd eto i £40,000 o 6 Ebrill 2014. Newidiwyd y lwfans blynyddol unwaith eto ar gyfer enillwyr uwch o 6 Ebrill 2016, a chrëwyd rheolau trosglwyddo arbennig ar gyfer blwyddyn dreth 2015/16 o ganlyniad i hynny. Ymdrinnir â'r newidiadau hyn yn fwy manwl yn ddiweddarach yn y ffeithlen hon.

Cyfnod cyfrannu at y gronfa bensiwn	Lwfans blynyddol
1 Ebrill 2011 tan 31 Mawrth 2012	£50,000
1 Ebrill 2012 tan 31 Mawrth 2013	£50,000
1 Ebrill 2013 tan 31 Mawrth 2014	£50,000
1 Ebrill 2014 tan 31 Mawrth 2015	£40,000
1 Ebrill 2015 tan 5 Ebrill 2016	£80,000 (rheolau trosglwyddo'n berthnasol)
6 Ebrill 2016 tan 5 Ebrill 2017	£40,000 (oni bai fod gostyngiad yn berthnasol)
6 Ebrill 2017 tan 5 Ebrill 2018 ymlaen	£40,000 (oni bai fod gostyngiad yn berthnasol)

Ydy'r lwfans blynyddol yn debygol o effeithio arnaf?

Ni fydd ffi treth yr LB yn effeithio ar y mwyafrif oherwydd ni fydd gwerth eu cynilion pensiwn yn cynyddu mwy na £40,000 mewn blwyddyn neu, os yw'n digwydd, byddant yn debygol o gael lwfans dros ben o flynyddoedd blaenorol y gellid ei drosglwyddo.

Byddai'n debygol o effeithio arnoch:

- os oes gennych sawl aelodaeth o gynlluniau ac rydych yn derbyn codiad cyflog sylweddol, ac/neu;
- os ydych yn talu lefel uchel o gyfraniadau ychwanegol, ac/neu;
- os ydych yn enillydd uwch, ac/neu;
- os ydych yn trosglwyddo eich hawliau pensiwn o gynllun pensiwn sector cyhoeddus blaenorol[1] i'r CPLIL o dan y rheolau trosglwyddiad clwb dewisol ac os yw'ch cyflog (cyfwerth amser llawn) pan fyddwch yn ymuno â CPLIL rhywfaint yn uwch na'ch cyflog pan roeddech yn gadael y cynllun blaenorol, ac/neu;
- os ydych yn cyfuno buddion pensiwn CPLIL blaenorol a gafodd ei adeiladu yn adran cyflog terfynol y CPLIL gyda'ch cyfrif pensiwn presennol ac os yw'ch cyflog (cyfwerth amser llawn) wedi cynyddu'n sylweddol ers i chi adael ac ail-ymuno â'r cynllun, ac/neu;
- os ydych wedi cael mynediad i fuddion hyblyg ar 6 Ebrill 2015 neu wedi hynny

Bydd Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe'n rhoi gwybod i chi os yw'ch cynilion pensiwn CPLIL yn fwy na'r LB safonol mewn blwyddyn erbyn 6 Hydref y flwyddyn ganlynol.

Adran 50/50 y CPLIL

Os ydych am arafu adeiladu'ch pensiwn neu liniaru ffi treth yr LB, bydd adran 50/50 y CPLIL yn eich galluogi i dalu hanner eich cyfraniadau arferol ac adeiladu hanner eich pensiwn arferol wrth gadw yswiriant bywyd a salwch llawn. Ewch i wefan aelodau CPLIL am fwy o wybodaeth am y dewis hwn.

Cyn i chi ystyried gweithredu er mwyn lleihau'ch rhwymedigaethau treth, dylech bob amser geisio cyngor ariannol annibynnol gan ymgynghorydd sydd wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Er mwyn derbyn cymorth wrth ddewis ymgynghorydd ariannol annibynnol, ewch i'r wefan cyngor ar arian.

Sut caiff y lwfans blynyddol ei gyfrifo?

Caiff cynnydd yng ngwerth eich cynilion pensiwn yn y CPLIL mewn blwyddyn ei gyfrifo trwy gyfrifo gwerth eich buddion yn syth cyn dechrau eich 'cyfnod cyfrannu at y pensiwn', yna gynyddu'r gwerth gyda chwyddiant, yna cymharu hyn â gwerth eich buddion ar ddiwedd y 'cyfnod cyfrannu i'r pensiwn'.

Mae'r 'cyfnod cyfrannu i'r pensiwn' (PIP) yn golygu'r cyfnod lle mesurir cynnydd eich pensiwn. O 6 Ebrill 2016, bydd PIP ar gyfer pob cynllun pensiwn yn cyd-fynd â'r flwyddyn dreth - 6 Ebrill i 5 Ebrill. Cyn 2016/17 roedd PIP o'r CPLIL rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth, ac eithrio blwyddyn 2015/16 pan roedd rheolau trosglwyddo arbennig yn berthnasol.

Yn y CPLIL, caiff gwerth eich buddion pensiwn ei gyfrifo trwy luosi swm eich pensiwn blynyddol â 16, yna ychwanegu unrhyw gyfandaliad y mae gennych hawl awtomatig iddo wrth y cynllun pensiwn ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol gwirfoddol rydych chi neu eich cyflogwr wedi eu talu yn ystod y flwyddyn.

[1]Mae cynllun pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys cynllun pensiwn sy'n berthnasol i weision sifil, y farnwriaeth, y lluoedd arfog, unrhyw gynllun yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban sy'n cynnwys gweithwyr llywodraeth leol, neu athrawon, neu weithwyr y gwasanaeth iechyd, neu weithwyr tân ac achub neu aelodau'r heddlu; neu aelodaeth corff cynllun pensiwn cyhoeddus newydd.

Os yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth eich buddion pensiwn ar ddiwedd y PIP minws gwerth eich buddion yn syth cyn dechrau'r PIP (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant), yn fwy na'r LB, gallwch fod yn atebol i dalu ffi treth.

Mae'n bwysig nodi bod yr asesiad ar gyfer LB yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn sydd gennych lle rydych wedi bod yn aelod gweithredol yn ystod y flwyddyn, nid buddion y CPLIL yn unig. Er enghraifft, os yw cynnydd yng ngwerth eich buddion CPLIL yn £30,000 yn 2014/15 pan roedd yr LB yn £40,000, ond cynyddodd werth buddion pensiwn eraill gennych £15,000 yn yr un flwyddyn, byddai hynny'n golygu bod cynnydd gwerth £45,000 yn eich buddion pensiwn. Os nad oeddech wedi trosglwyddo unrhyw swm (gweler isod am fwy o wybodaeth), gallech fod yn agored i ffi treth ar gyfer swm dros ben yr LB, er nad oedd y gwerth arwynebol yn fwy na'r LB yn y naill gynllun.

Trosglwyddo

Gallech fod yn destun ffi treth LB os yw gwerth cyfanswm eich cynilion pensiwn mewn blwyddyn yn cynyddu i fod yn fwy na'r LB yn y flwyddyn honno'n unig. Fodd bynnag, byddai rheol trosglwyddo tair blynedd yn eich galluogi i drosglwyddo unrhyw LB a oedd dros ben o'r tair blynedd flaenorol. Mae hyn yn golygu ni fyddwch yn destun ffi treth LB, hyd yn oed os yw gwerth eich cynilion pensiwn yn cynyddu'n fwy na gwerth yr LB mewn blwyddyn.

Er enghraifft, os yw gwerth eich cynilion pensiwn yn 2019/20 yn cynyddu £50,000 (h.y. £10,000 yn fwy na'r LB) ond yn y tair blynedd diwethaf cynyddodd £25,000, £28,000 a £30,000, yna bydd gwahaniaeth y cyfansymiau hyn a gwerth yr LB yn y blynyddoedd hyn yn cydbwyso'r cynilion pensiwn ychwanegol gwerth £10,000 yn y flwyddyn bresennol. Ni cheir unrhyw ffi treth LB i'w dalu yn yr achos hwn.

Er mwyn trosglwyddo unrhyw LB nas defnyddir o flwyddyn flaenorol mae'n rhaid eich bod wedi bod yn aelod o'r cynllun pensiwn cofrestredig yn y flwyddyn honno.

Newidiadau i'r Lwfans Blynyddol

Cyflwynodd y Ddeddf Cyllid (Rhif 2) 2015 ddau newid pwysig i'r LB a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016.

1. Bydd tapr lwfans blynyddol ar gyfer enillwyr uchel o 6 Ebrill 2016.
2. Gellir addasu'r 'cyfnod cyfrannu at y gronfa bensiwn' yn ystod 2015/16 fel ei fod yn cydymffurfio â'r flwyddyn dreth o 6 Ebrill 2016.

1. Lwfans blynyddol wedi'i dapro ar gyfer enillwyr uwch

O'r flwyddyn dreth 2016/17 caiff yr LB ei dapro ar gyfer aelodau ag 'Incwm Trothwy' gwerth mwy na £110,000, ac 'Incwm wedi'i Addasu' gwerth mwy na £150,000. Caiff eich LB ei dapro i lawr £1 (hyd at o leiaf £10,000) ar gyfer pob £2 mae gwerth eich Incwm wedi'i Addasu dros £150,000.

	Diffiniad	Cyfyngiad
Incwm Trothwy	Eich incwm trethadwy ar ôl tynnu'ch cyfraniadau pensiwn (gan gynnwys pob AVC wedi'i didynnu o dan y trefniant tâl net)	£110,000
Incwm wedi'i Addasu	Eich incwm trothwy ac unrhyw gynilion pensiwn sydd wedi adeiladu dros y flwyddyn dreth	£150,000

Mae incwm trothwy'n cynnwys pob ffynhonnell incwm y gallwch dalu treth arni, e.e. incwm eiddo, incwm cynilion, incwm rhandaliadau, incwm pensiwn, incwm nawdd cymdeithasol (lle bo'n drethadwy), incwm pensiwn y wladwriaeth etc.

Sylwer nad oes gennych yr hawl i ddidynnu unrhyw werth incwm cyflogaeth rydych wedi'i ildio ar gyfer darpariaeth pensiwn o ganlyniad i unrhyw aberth cyflog ar 9 Gorffennaf 2015 neu wedi hynny o'ch incwm trethadwy.

Sut mae'r tapr yn gweithio?

O 6 Ebrill 2016, bydd y tapr yn lleihau'r LB £1 ar gyfer £2 o incwm wedi'i addasu dros £150,000, nes cyrraedd lleiafrif LB o £10,000. Mae hyn yn golygu bod yr LB ar gyfer enillwyr uwch o Ebrill 6 2016 fel isod:

Incwm wedi'i Addasu	Lwfans Blynyddol
£150,000 neu lai	£40,000
£160,000	£35,000
£170,000	£30,000
£180,000	£25,000
£190,000	£20,000
£200,000	£15,000
£210,000 neu fwy	£10,000

Enghreifftiau

Cerys		
Cyflog gros 2018/19	£120,000	
Tynnu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr	£13,680	11.4%
Incwm Trothwy 2016/17	£106,320	Llai na £110,000, felly ni chaiff yr LB ei dapro bydd yn aros ar £40,000
Cynilion pensiwn yn ystod y flwyddyn	£39,184	**Llai na £40,000 felly ni chodir ffi treth**
Sanjay		
Cyflog gros 2018/19	£130,000	
Tynnu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr	£14,820	11.4%
Incwm trethadwy o eiddo	£30,000	
Incwm Trothwy 2018/19	£145,180	
Cynilion pensiwn yn ystod y flwyddyn	£42,449	
Incwm wedi'i Addasu	£187,629	Mwy na £150,000 felly caiff yr LB ei dapro
LB wedi'i dapro	£21,186*	
Mwy na'r LB	£21,263	Cynilion pensiwn gwerth £42,449 minws LB wedi'i dapro
Ffi treth LB ar gyfradd ffiniol (tybir ei fod yn 40%)	**£8,505.20**	21,263 x 40%

*Tapr = £187,629 - £150,000 = £37,629/ 2 = £18,814. Lwfans LB safonol £40,000 minws £18,814 = £21,186

Sylwer nad yw'r enghreifftiau uchod/cynnwys yn dangos unrhyw arian wedi'i drosglwyddo. Nid yw cynilion pensiwn yn ystod y flwyddyn ar gyfer Sanjay a Cerys yn cynnwys unrhyw fuddion cyflog terfynol yn y CPLIL ac nid yw'n dangos unrhyw gyfraniadau ychwanegol.

2. Cydlynu'r 'Cyfnod Cyfrannu at y Gronfa Bensiwn' a'r flwyddyn dreth

'Cyfnod cyfrannu at y gronfa bensiwn' (PIP) yw'r cyfnod lle caiff twf eich pensiwn ei fesur. Hyd at 2014/15 roedd y PIP yn y CPLIL rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth. O 6 Ebrill 2016, bydd y PIP ar gyfer pob cynllun pensiwn yn cyd-fynd â'r flwyddyn dreth - rhwng 6 Ebrill a 5 Ebrill. Bydd trefniadau trosglwyddo arbennig yn berthnasol ar gyfer 2015/16 sy'n golygu bod 2 PIP yn 2015/16, fel a nodir isod:

Blwyddyn dreth cyn cydlynu: rhwng 1 Ebrill 2015 ac 8 Gorffennaf 2015 - yr LB diwygiedig yn ystod y cyfnod hwn yw £80,000
Blwyddyn dreth ar ôl cydlynu: rhwng 9 Gorffennaf 2015 a 5 Ebrill 2016 - yr LB yn ystod y cyfnod hwn fydd y swm nas defnyddiwyd o'r £80,000 yn ystod y flwyddyn dreth cyn cydlynu (yn destun uchafswm o £40,000) ynghyd ag unrhyw arian a drosglwyddir o'r tair blynedd diwethaf.

Os ydych wedi cael mynediad hyblyg i fuddion trwy drefniad pensiwn pryniant arian ar 6 Ebrill 2015 neu wedi hynny (gweler isod) dylech gysylltu â Chronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe er mwyn cael gwybodaeth am sut bydd y blynyddoedd treth cyn cydlynu ac ar ôl cydlynu'n gweithio oherwydd y bydd yn wahanol i'r uchod.

Mynediad i 'Fuddion Hyblyg' Lwfans Blynyddol

Os oes gennych unrhyw fuddion mewn trefniad pensiwn pryniant arian (â chyfraniad penodol) ac rydych wedi cael mynediad hyblyg iddo ar 6 Ebrill 2015 neu wedi hynny, gall rheolau Lwfans Blynyddol Pryniant Arian (MPAA) fod yn berthnasol. Fodd bynnag, bydd yr MPAA yn berthnasol os yw cyfanswm eich cyfraniadau i drefniad pryniant arian yn ystod cyfnod cyfrannu at y gronfa bensiwn yn fwy na'r MPAA yn unig.

Yn gyffredinol, os ydych wedi cael mynediad hyblyg at unrhyw fuddion mewn trefniad pryniant arian ar 6 Ebrill 2015 neu wedi hynny, bydd unrhyw gyfraniadau rydych yn eu gwneud i gynllun pryniant arian yn ystod blynyddoedd treth dilynol yn cael eu cymharu â'r MPAA. Os yw'ch cyfraniadau'n fwy na'r MPAA caiff eich cynilion buddion pensiwn (CPLIL) penodol eu cymharu â'r LB amgen a bydd angen i chi dalu ffi treth mewn perthynas â'ch cynilion pryniant arian sy'n fwy na'r MPAA.

Blwyddyn dreth	MPAA	Lwfans blynyddol amgen os yw'n fwy na'r MPAA
2016/17	£10,000	£30,000
2017/18 ymlaen	£4,000	£36,000

Roedd rheolau trosglwyddo arbennig yn berthnasol yn y flwyddyn dreth 2015/16 - cysylltwch â Chronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe am fwy o wybodaeth, os yw'n berthnasol.

Os ydych yn cael mynediad i fuddion hyblyg byddwch yn derbyn datganiad mynediad hyblyg; dylech roi copi o'r datganiad hwn i Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Mae mynediad hyblyg yn golygu eich bod yn tynnu arian parod dros y cyfandaliad di-dreth o gyfrif gostyngiad â mynediad hyblyg, cymryd cyfandaliad pensiwn arian anghrisialog (UFPLS), prynu blwydd-dal hyblyg, tynnu cynllun pensiwn o gynllun cyfraniad penodol gyda

llai na 12 aelod pensiwn neu gymryd cyfandaliad unigol os oes gennych ddiogelwch sylfaenol ond nid oes gennych ddiogelwch uwch.[2]

Sut y gallaf dalu treth Lwfans Blynyddol?

Os ydych yn mynd yn fwy na'r LB mewn un blwyddyn, chi sy'n gyfrifol am adrodd hyn i CThEM ar eich ffurflen hunan-asesu treth.

Mae'n rhaid i Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe roi gwybod i chi os yw'ch buddion CPLIL (a chyfanswm unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC) rydych wedi'u talu) yn fwy na'r LB, neu os ydynt yn credu eich bod wedi mynd y tu hwnt i'r MPAA mewn blwyddyn. Mae'n rhaid iddi roi gwybod i chi cyn 6 Hydref yn y flwyddyn dreth ganlynol. Fodd bynnag, nid oes angen i Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe roi gwybod i chi os ydych yn mynd y tu hwnt i'r lwfans blynyddol wedi'i dapro.

Petai gennych dreth LB sy'n fwy na £2,000 ac mae eich cynilion pensiwn yn y CPLIL yn unig wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn fel eu bod yn werth mwy na'r LB safonol, gallech ddewis i'r CPLIL dalu rhan o'r dreth, neu holl gost y dreth, ar eich rhan. Caiff y dreth ei hadennill o'ch buddion pensiwn.

Os ydych am i'r CPLIL dalu rhan o'r dreth LB, neu holl gost y dreth, ar eich rhan, bydd angen i chi roi gwybod i Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe cyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn sy'n dilyn y flwyddyn sy'n berthnasol i'r tâl LB. Fodd bynnag, os ydych yn ymddeol (ac rydych yn tynnu'ch holl fuddion o'r CPLIL) ac rydych am i'r CPLIL dalu rhan o'r dreth, neu holl gost y dreth, ar eich rhan trwy ddefnyddio'ch buddion, bydd angen i chi ddweud wrth eich cronfa bensiwn cyn eich bod yn gallu hawlio'r buddion hyn.

Gall eich cronfa bensiwn, yn ôl ei disgresiwn, gytuno i dalu rhan o dâl y lwfans blynyddol, neu holl gost y tâl, ar eich rhan mewn sefyllfaoedd eraill, e.e. os nad yw'ch cynilion pensiwn yn fwy na'r LB safonol ond os yw dros werth yr LB wedi'i dapro neu'r LB pryniant arian, neu os yw rhan o'r tâl yn perthyn i gynilion pensiwn y tu allan i'r CPLIL. Cysylltwch â'ch cronfa bensiwn am fwy o wybodaeth.

A fydd hyn yn effeithio arnaf?

Os ydych yn credu bod yr LB yn effeithio arnoch, mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan y Llywodraeth - https://www.gov.uk/tax-on-your-private-pension/annual-allowance. Os ydych yn ansicr a fydd yr LB yn effeithio arnoch, defnyddiwch y dudalen gwirio LB ar wefan aelodau'r CPLIL.

Mae'r ffeithlen hon yn darparu trosolwg o reolau'r LB o fis Ebrill 2018. Ni ddylid ei thrin fel datganiad cyfreithiol cyflawn ac awdurdodol. Mae'r rheolau sy'n llywodraethu LB yn gallu bod yn gymhleth ac maent yn gallu newid; os nad ydych yn sicr am sut i fynd ati, dylech geisio cyngor ariannol annibynnol. Er mwyn eich helpu i ddewis ymgynghorydd ariannol annibynnol ewch i'r wefan cyngor ar arian.

Mwy o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich aelodaeth CPLIL neu am fuddion, cysylltwch â:

[2] Cyfandaliad unigol yw cyfandaliad a oedd yn berthnasol cyn 6 Ebrill 2006 lle y gallai'r cyfanswm gael ei gymryd fel cyfandaliad heb bensiwn cysylltiedig.

Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe
pensiynau@abertawe.gov.uk
01792 636655
http://www.swanseapensionfund.org.uk/cy/